

**Cymraeg Mewn Arfer
Proffesiynol
BA1
ECAD4020**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

**Darlith 3:
Methodoleg**

r.abbott@pcydd.ac.uk



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Presenoldeb BA1

BA1 Attendance



Methodoleg dysgu ac addysgu iaith (parhad)

Munud i feddwl

Meddyliwch am dasg wrando / tasgau gwranddo
er mwyn ymarfer y sain /m/.



Yr anghenfil sy'n bwyta seiniau!

Defnyddiwch byped neu flwch cardbord wedi'i addurno fel anghenfil.

Dywedwch wrth y dosbarth, "Dim ond pethau sy'n dechrau gyda'r sain /mmm/ y mae'r anghenfil yn eu bwyta."

Dangoswch wrthrychau neu gardiau (e.e. merch, moron, mwnci, car).

Rhaid i blant wrando ar y gair rydych chi'n ei ddweud a phleidleisio gyda bawd i fyny/i lawr os gall yr anghenfil ei fwyta.

Gall hyn ddarparu cyd-destun uniongyrchol ar gyfer geirfa, tra bod y ffocws yn parhau i fod yn gyfan gwbl ar y sain ffonetig gychwynnol.



Neidio i'r cylch

Rhowch gylchoedd ar y llawr.

Dywedwch air sylfaenol, fel "mwnci".

Yna, dywedwch gyfres o eiriau eraill ("het", "ci", "pêl", "merch").

Pryd bynnag y bydd y plant yn clywed gair sy'n dechrau gyda'r sain /m/, rhaid iddyn nhw neidio i'r cylch nesaf.

Mae'r dull **Ymateb Corfforol Cyflawn (TPR)** yn galluogi dysgwyr i ddangos eu bod yn deall heb y pwysau o orfod siarad.



Yn yr awyr agored



Trefnwch y plant ar linell gychwyn.

Safwch ychydig fetrau i ffwrdd oddi wrthyn nhw.

Eglurwch mai dim ond os yw'r gair rydych chi'n ei weiddi yn dechrau gyda'r sain hud (e.e., /m/) y gallan nhw gymryd cam anferth ymlaen.

Os gwaeddwch chi "Môr!" neu "Mê!", maen nhw'n cymryd cam mawr ymlaen.

Os gwaeddwch chi "Tŷ", rhaid iddynt aros yn gwbl llonydd.

Os bydd rhywun yn camu wrth glywed air nad yw'n air targed, maen nhw'n cymryd un cam yn ôl.

Mae'r **dull Ymateb Corfforol Cyflawn (TPR)** yn gwneud i'r gweithgaredd deimlo fel gweithgaredd chwaraeon.

Amser stori

Dywedwch wrth y plant eu bod nhw'n dditectifs sain.

Rhaid iddyn nhw gau eu llygaid a gwrando ar stori fach.

Rhowch weithred gorfforol benodol iddyn nhw ei gwneud dim ond pan fyddan nhw'n clywed y sain dan sylw (e.e., "Bob tro rydych chi'n clywed gair sy'n dechrau gyda /m/, llyfwch eich gwefusau fel petaech chi'n bwyta rhywbeth blasus!").

Darllenwch yn araf ac yn rhythmig.

Mae cau eu llygaid yn dileu tynnu sylw gweledol, gan orfodi'r plant i ganolbwyntio'n llwyr ar y sain. Mae'r weithred gorfforol yn sicrhau nad oes angen iddyn nhw gynhyrchu unrhyw iaith i ddangos eu bod wedi llwyddo i ynysu'r sain.



Sgil gwranddo a siarad

"Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg yn caffael yr iaith yn llwyddiannus **drwy wrando** ar ymarferwyr yn cyfathrebu â nhw yn y Gymraeg **yn gyson**. Trwy wneud hynny, maent yn clywed llif yr iaith ac yn dod i ddeall a mewnoli geiriau a phatrymau cystrawennol yn effeithiol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn magu hyder wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg."



Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 38.

Y Cof




"Mewn llawer o ysgolion lle mae arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn cyfoethogi geirfa dysgwyr yn effeithiol drwy ddefnyddio technegau defnyddiol fel cymhorthion cof i ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn drafftio storïau gyda'i gilydd ac mae ymarferwyr yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu iaith gyfarwydd ac anghyfarwydd i ddysgwyr i'w helpu i gryfhau eu dewisiadau creadigol fel **'chwarddodd yn uchel'** a **'crwydro'n ddigyfeiriad'**. Mae dysgwyr yn ailadrodd y storïau ar lafar yn rheolaidd. Mae hyn yn ei helpu i gofio'r eirfa newydd wrth iddynt ddatblygu eu siarad ac ysgrifennu at ddibenion gwahanol."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 68.

"Research has demonstrated that the most successful construction of a memory takes place when new content is linked to prior knowledge. The probability of remembering something new is increased when teachers invoke connections and relationships that exist between new and old knowledge."

(tud 46: The Language Teacher Toolkit)

Cofio ... Anghofio





Ar ddarn o bapur,
gwnewch graff.

Tynnwch linell i ddangos
sut rydyn ni'n
cofio / colli gwybodaeth
newydd.

Dechreuwch ar 100%.

Cofio....Anghofio

THE FORGETTING CURVE



Cromlin anghofio Ebbinghaus

Y Cof

- Mae cof tymor byr yn **rhan** o'r Cof Gweithiol - y man lle mae pethau'n cael eu storio dros dro.
- Mae angen gwneud llawer er mwyn symud pethau i'r cof tymor hir (**ailadrodd** ac **ailgylchu** iaith er mwyn cofio).



Ydych chi'n cofio...?

1. Beth yw TPR?
2. Ym mha flwyddyn cafodd y Beibl ei gyfieithu gyntaf?
3. Yn eich portffolio iaith (Llywodraeth Cymru), pa 5 peth bydd angen i chi ddangos tystiolaeth ohonyn nhw?
4. Beth yw canran (%) y dysgwyr yng Nghymru sydd mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog ac sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg?
5. Enwch unrhyw un o'r llyfrau sydd wedi ei ddangos ar sleid yn ystod y cyflwyniad hwn.

Munud i feddwl

Pam bod dysgu geirfa'n bwysig?


Trafodwch



Pam bod dysgu geirfa'n bwysig?

Wrth ddysgu geirfa, gall y dysgwr:

- gyfathrebu'n well ac yn gyflymach
- ddeall yn well
- gynyddu ei hunan hyder
- gynyddu ei hunan-effeithlonrwydd
- ddysgu'n well.



Pwysigrwydd dysgu geirfa

Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, **mae athrawon yn cynllunio'n benodol** ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.

Lle ceir diffygion mewn addysgu iaith ... **nid yw staff yn adnabod pwysigrwydd dysgwyr yn datblygu'u gwybodaeth am eirfa wrth gynllunio ar gyfer dysgu, nac yn darparu cyfleoedd penodol** iddynt wneud hynny.



Pwysigrwydd dysgu geirfa

"Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae'r addysgu yn effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu geirfa dysgwyr yn fedrus. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth ac yn fodd cyson o sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso iaith lafar ac ysgrifenedig fwyfwy aeddfed ac estynedig **mewn gwersi Cymraeg ac ar draws y cwricwlwm** wrth iddynt symud drwy'r ysgol."


Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 33.

"Mae ymarferwyr yn dilyn cynllun pwrpasol sydd wedi'i strwythuro'n ofalus gan arbenigwyr iaith yn y lleoliad i gyflwyno, datblygu, ymarfer a defnyddio geirfa a therminoleg benodol sy'n gysylltiedig â maes neu bwnc penodol er enghraifft gwyddoniaeth a daearyddiaeth...

...O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn defnyddio geirfa a therminoleg newydd yn llwyddiannus yn eu gwaith."

Caffael Iaith, Estyn, 2021, tud. 68.

Dysgu geirfa



Parwch y gair/term a'r diffiniad

1. methodoleg
2. caffael iaith
3. ymateb corfforol cyflawn
4. addysgu echblyg
5. addysgu ymhlyg

- Dull o ddysgu iaith lle mae dysgwyr yn ymateb i orchymyn llafar gan ddefnyddio symudiadau corfforol (TPR).
- Dysgu bwriadol, e.e. gemau a gweithgareddau er mwyn dysgu set benodol o eiriau.
- System o ddulliau sy'n cael eu defnyddio wrth ddysgu ac addysgu, e.e. dysgu ac addysgu iaith.
- Dysgu anuniongyrchol, e.e. dysgu geirfa drwy glywed yr athrawes yn defnyddio'r eirfa'n aml.
- Y broses naturiol o ddatblygu'r gallu i ddysgu a defnyddio iaith.

Atebion

1. methodoleg
2. caffael iaith
3. ymateb corfforol cyflawn
4. addysgu echblyg
5. addysgu ymhlyg

1. System o ddulliau sy'n cael eu defnyddio wrth ddysgu ac addysgu, e.e. dysgu ac addysgu iaith.
2. Y broses naturiol o ddatblygu'r gallu i ddysgu a defnyddio iaith.
3. Dull o ddysgu iaith lle mae dysgwyr yn ymateb i orchymyn llafar gan ddefnyddio symudiadau corfforol (TPR).
4. Dysgu bwriadol, e.e. gemau a gweithgareddau er mwyn dysgu set benodol o eiriau.
5. Dysgu anuniongyrchol, e.e. dysgu geirfa drwy glywed yr athrawes yn defnyddio'r eirfa'n aml.

Gweithiwch mewn paru. Rhaid i bartner A ysgrifennu'r geiriau sydd ar yr ochr chwith isod. Yna, rhaid i bartner A droi ei gefn at y sleid.

Bydd partner B yn darllen diffiniad ar hap a rhaid i bartner A ddewis y gair cywir.


Yna newidiwch rôl.

1. methodoleg
2. caffael iaith
3. ymateb corfforol cyflawn
4. addysgu echblyg
5. addysgu ymhlyg

1. System o ddulliau sy'n cael eu defnyddio wrth ddysgu ac addysgu, e.e. dysgu ac addysgu iaith.
2. Y broses naturiol o ddatblygu'r gallu i ddysgu a defnyddio iaith.
3. Dull o ddysgu iaith lle mae dysgwyr yn ymateb i orchymyn llafar gan ddefnyddio symudiadau corfforol (TPR).
4. Dysgu bwriadol, e.e. gemau a gweithgareddau er mwyn dysgu set benodol o eiriau.
5. Dysgu anuniongyrchol, e.e. dysgu geirfa drwy glywed yr athrawes yn defnyddio'r eirfa'n aml.

Ffeindiwch eich partner





<https://wordwall.net/resource/119536752?wwmethod=link>

Tip!

Cadwch nodyn o'r termau hyn.

Defnyddiwch nhw mewn cynlluniau gwersi iaith.

Bydd disgwyl i chi ddefnyddio termau fel hyn fel rhan o'ch asesiadau ar gyfer y modiwl hwn.

Munud i feddwl



Beth ydy
'drilio iaith'?

Ydych chi wedi gweld
enghreifftiau o
ddrilio iaith?

Beth ydy drilio?

Mae drilio yn ffordd effeithiol o ddysgu **geirfa, ymadrodd neu dalp o iaith.**

Mae'n gallu bod yn **ffordd effeithiol o gyflwyno a dysgu geirfa newydd neu batrwm iaith newydd.**

Mae'n ffordd dda o gyflwyno geirfa berthnasol yn y cyd-destun cywir, e.e. i gyd-fynd â chynnwys y wers.

Gellir defnyddio drilio:

- ar ddechrau gwers – wrth gyflwyno geirfa / patrymau newydd
- ar ddiwedd gwers – er mwyn atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd
- yng nghanol gwers – er mwyn codi'r egni / adolygu geirfa / patrymau

Gan mai prif bwrpas y dril ydy cyflwyno geirfa neu batrwm newydd, **ni ddylid cyflwyno gormod ar yr un pryd.**

Ceisiwch gadw'r drilio yn fyr, e.e. tua 5 munud.

Sut mae drilio?



Defnyddiwch
luniau neu wrthrychau





Meimiwch neu
gwnewch symudiadau



Clapiwch (e.e. geirfa)



Stampiwch eich traed



Amrywiwch eich llais



Sut mae drilio?



Rapiwch



Defnyddiwch bêl neu
degan a'i basio o un i'r llall



Gwnewch gadwyn, e.e.
'Es i i'r siop a phrynais i....'

Po fwyaf y bydd y plant yn
eich gweld chi'n arbofi gyda
iaith (e.e. drwy ddrilio mewn
gwahanol leisiau, meimio),
po fwyaf y byddan nhw'n
barod i arbrofi gyda'r iaith
eu hunain.



